CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Trawsgydymffurfio: adnabod a chofrestru gwartheg (SMR 7) (2022)

Crynodeb o'r rheolau ar adnabod a chofrestru gwartheg.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 10 Rhagfyr 2021

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Rhagfyr 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-adnabod-chofrestru-gwartheg-smr-7-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


**Cyflwyniad**

**Y prif ofynion**

**Archwiliadau maes**

**Arfer da**

**Gwybodaeth pellach**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-adnabod-chofrestru-gwartheg-smr-7-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Amcan y gofynion hyn yw cynnal system ar gyfer adnabod a chofrestru gwartheg ar gyfer eu holrhain yn rhwydd, yn enwedig pan fydd clefyd yn taro. Rhaid i bawb sy'n cadw gwartheg, hyd yn oed gwartheg anwes, gadw at y gofynion hyn.

At bwrpas trawsgydymffurfio, does dim angen ichi wneud mwy na'r hyn y mae'r gyfraith eisoes yn gofyn ichi ei wneud.

# Y prif ofynion

## Tagiau Clust

### Rhaid tagio gwartheg fel a ganlyn:

- â thagiau sydd wedi'u cymeradwyo gan Defra i roi rhif adnabod unigryw i bob llo sy'n cael ei eni ar y daliad. Bydd yn cynnwys nod'UK'y fuches a rhif dilyniannol
- trwy roi dau dag ar bob llo sy'n cael ei eni ar y daliad cyn pen 20 diwrnod neu cyn i'r llo adael y daliad, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf
- rhoi'r tag cyntaf ar loi a aned mewn buches odro cyn pen 36 awr a'r ail cyn pen 20 diwrnod
- rhoi tag yn lle tagiau clust sy'n cael eu colli neu sy'n amhosib eu darllen cyn pen 28 diwrnod ar ôl sylwi ar y golled, neu cyn i'r anifail adael y daliad
- peidiwch â newid, dileu nag amharu ar y tagiau adnabod
- cewch roi trydydd tag at ddiben rheoli neu allforio
- bydd angen nodi'r rhagddodiad cod gwlad 'GB' a rhif adnabod yr anifail ar y tag allforio

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-adnabod-chofrestru-gwartheg-smr-7-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Pasbortau gwartheg

- gofynnwch i Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) am basbort gwartheg cyn pen 27 diwrnod ar ôl geni'r llo fan hwyraf neu 7 niwrnod ar gyfer beisonau
- cadwch y pasbort mewn lle diogel er mwyn ichi allu dangos pasbort dilys gyda'ch llofnod arno ar gyfer yr holl wartheg sydd gennych o dan eich gofal
- rhowch wybod i'r BCMS am symudiadau'ch gwartheg i ac o'ch daliad o fewn 3 diwrnod ar ôl y symudiad
- rhaid rhoi gwybod i'r BCMS am farwolaeth anifail ar eich daliad ac anfon ei basbort atynt, cyn pen 7 niwrnod
- peidiwch â newid na difetha pasbort

## Cofrestr y fferm

- rhaid cadw cofrestr gyfoes o'r fuches ar y fferm sy'n dangos rhif y tag clust, rhif adnabod y fam, dyddiad geni, brîd a rhyw pob anifail
- dylai'r gofrestr gynnwys dyddiad symud yr anifail i'r fferm neu o'r fferm gyda chyfeiriad y lle cafodd ei anfon iddo/y daeth ohono. Dylai gynnwys dyddiad pob marwolaeth a lle cafodd y carcas ei anfon iddo
- rhaid llenwi'r gofrestr cyn pen 36 awr ar ôl symudiad, cyn pen 7 niwrnod ar ôl marwolaeth a chyn pen 30 diwrnod ar ôl geni llo (7 niwrnod yn achos llo o fuches odro)
- cadwch gofrestr y fuches am 10 mlynedd ar ôl y cofnod diwethaf fel y gall Llywodraeth Cymru neu'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ei gweld o ofyn am gael gwneud

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-adnabod-chofrestru-gwartheg-smr-7-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Archwiliadau maes

- i ofalu bod eich holl wartheg yn cael eu tagio yn unol â'r gofyn a'ch bod, o fewn y terfyn amser, yn rhoi tagiau yn lle'r rhai sy'n cael eu colli
- i ofalu bod pob pasbort yn cyfateb i anifail penodol a bod gan bob anifail basbort (neu ddogfen gofrestru CPP35)
- i ofalu bod y manylion printiedig ar y pasbort yn cyfateb i gofnodion y fferm
- i weld cronfa ddata'r System Olrhain Gwartheg (SMR) i wneud yn siwr bod yr holl wartheg o dan eich gofal wedi'u rhestru'n gywir a rhoi gwybod am gamgymeriadau
- i ofalu bod cofnodion y fferm yn gyflawn ac yn gyfoes ac yn cyfateb i gofnodion y CTS

I helpu â'r archwiliadau maes:

- gofalwch fod gennych system trin gwartheg sy'n gweithio'n dda ac sy'n gadael y gwartheg drwyddi'n effeithiol
- gofalwch eich bod yn trefnu bod gennych ddigon o weithwyr a lle diogel i drin y gwartheg

## Arfer da

- fel rhan o'r archwiliadau arferol, rhaid gofalu fod y ddau dag clust yn sownd ac yn ddarllenadwy
- rhaid rhoi tag newydd yn lle tag sydd wedi'i golli neu sydd wedi'i ddifrodi o fewn 28 diwrnod ar ôl sylwi fod rhywbeth yn bod. Defnyddiwch CTS ar-lein i gofrestru genedigaethau a marwolaethau ac i gofnodi symudiadau. Yn ogystal â bod yn gynt, mae'n ffeindio bylchau a gwallau yn y cofnodion ichi allu eu cywiro a thrwy hynny, osgoi cosbau trawsgydymffurfio
- cymharwch restr y CTS o'r gwartheg sydd ar eich daliad â rhestr y gwartheg

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-adnabod-chofrestru-gwartheg-smr-7-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

sydd wedi cael prawf TB (neu sydd wedi'u crynhoi at ddibenion eraill

## Gwybodaeth pellach

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

- Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)
- Awdurdodau Lleol (Yr adran Safonau Masnach fel arfer)

neu gweler y daflen **Trawsgydymffurfio: cysylltiadau defnyddiol (2024)**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-adnabod-chofrestru-gwartheg-smr-7-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.